# IS-DDEDDFAU

**mewn perthynas â**

# PHROMENÂD, TRAETH A BLAENDRAETH

# TRAETH Y GOGLEDD,

# LLANDUDNO,CONWY 2017

**Mae'r ddogfen hon yn cynnwys darpariaethau Is-ddeddfau 1988 mewn perthynas â Phromenâd, Traeth a Blaendraeth Traeth y Gogledd , Llandudno fel y'i diwygiwyd yn 1995 a 2017. Mae copïau swyddogol o Is-ddeddfau 1988 ac Is-ddeddfau Diwygiedig 1995 a 2017 ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.**




C.L.Williams.



177122

IS-DDEDDFAU

a wnaed gan

GYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

yn rhinwedd pwerau a roddwyd i'r Cyngor

gan Adrannau 82 ac 83 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd Cyhoeddus, 1907

# PROMENÂD TRAETH A BLAENDRAETH TRAETH Y GOGLEDD

# YNG NGHYMUNED LLANDUDNO

I gadw trefn ac ymddygiad da ymysg unigolion sy'n mynychu'r Promenâd, Traeth a Blaendraeth; rheoli codi unrhyw fythau, pebyll, siediau, standiau, stondinau, sioeau neu unrhyw adeiladau eraill a chwarae gemau, ac yn gyffredinol ar gyfer rheoli defnyddwyr ar gyfer dibenion tebyg i'r rhai a ragnodir gan yr is-ddeddfau mewn perthynas â'r Promenâd, Traeth a Blaendraeth dywededig neu unrhyw ran ohonynt;

Rheoli gwerthu a phedlera unrhyw eitemau, nwyddau neu bethau ar y Promenâd, Traeth a Blaendraeth;

Rheoli defnyddwyr y Promenâd, Traeth a Blaendraeth dywededig neu unrhyw ran ohonynt ar gyfer marchogaeth a gyrru.

## DEHONGLIAD

1. Yn yr is-ddeddfau hyn mae:

| | | |
|---|---|---|
| "Traeth" | yn golygu | yr ardal gyfan o Draeth a leolir o dro i dro uwchben llinell y lefel marc penllanw llanwau canolig rhwng y llinellau a nodir gan AA a BB ar y cynllun sydd ynghlwm wrth yr is-ddeddfau hyn; |
| "y Cyngor" | yn golygu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. |

| | | |
|---|---|---|
| "Blaendraeth" | yn golygu | yr ardal gyfan o dir a leolir o dro i dro rhwng llinell y lefel marc penllanw llanwau canolig a llinell y lefel marc dŵr isel llanwau canolig rhwng y llinellau a nodir gan AA a BB ar y cynllun sydd ynghlwm wrth yr is-ddeddfau hyn; |
| "y Promenâd" | yn golygu | yr ardal gyfan o dir, gan gynnwys pob glanfa a llithrfa, a leolir rhwng Ffordd y Fach a Ffordd Nant-y-Gamar a'r tir a ddangosir yn fwy penodol at ddibenion adnabod â chroeslinellau coch ar y cynllun sydd ynghlwm wrth yr is-ddeddfau hyn; |

## 2. EITHRIO SWYDDOGION

O dan yr is-ddeddfau hyn, ni fydd gweithred sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon yn briodol ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth gan swyddog y Cyngor neu unrhyw weithred sy'n angenrheidiol i gyflawni unrhyw gontract gyda'r Cyngor yn briodol, yn cael ei ystyried yn drosedd.

## 3. CODI PYST, RHEILIAU, FFENSYS AC ATI

Ni ddylai unrhyw un ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth, ac eithrio'r rheiny a nodir o hyn ymlaen, godi unrhyw bostyn, rheilen, ffens, polyn, pabell, bwth, stand, adeilad na strwythur arall (oni bai am atalfa wynt) neu ddyfais debyg.

Deallir na fydd y gwaharddiad hwn yn berthnasol pan fydd y Cyngor, ar ôl derbyn cais, yn rhoi caniatâd i godi unrhyw bostyn, rheilen, ffens, polyn, pabell, bwth, stand, adeilad neu strwythur arall ar achlysur ac at ddiben a bennir yn y cais.

## 4. GWERTHU A PHEDLERA

Ni ddylai unrhyw un ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth werthu unrhyw nwyddau neu eitemau, na chynnig neu amlygu i'w gwerthu, neu i'w llogi, na chynnig neu amlygu i'w gosod neu i'w llogi, oni bai fod ganddynt gytundeb â'r Cyngor neu fel arall eu bod yn ymarfer unrhyw hawl neu fraint gyfreithiol sydd ganddo/ganddi i werthu neu logi nwyddau neu eitemau tebyg ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth.

## 5. PERFFORMIADAU AC ATI

Ni ddylai unrhyw un ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth gynnal na chymryd rhan mewn unrhyw sioe neu berfformiad cyhoeddus.

Deallir nad yw'r is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw un sy'n cynnal neu'n cymryd rhan mewn sioe fandiau neu unrhyw adloniant arall a gynhelir ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth mewn cytundeb â'r Cyngor.

## 6. CARDOTA, TOWTIO AC ATI.

Ni ddylai unrhyw un ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth beri annifyrrwch neu rwystr i unrhyw un arall sy'n eu defnyddio, drwy gardota neu elusenna, neu at ddibenion gwerthu neu hysbysebu unrhyw eitem neu i geisio busnes, towtio neu lithio, naill ai ar lafar neu drwy ddosbarthu taflenni, cylchlythyrau, gosod 'byrddau A' neu hysbysebion. Deallir nad yw'r is-ddeddf hon yn berthnasol pan gesglir unrhyw arian neu pan werthir unrhyw eitemau yn unol ag unrhyw Reoliadau a wnaed o dan Adran 5 o Ddeddf Heddlu, Ffatrïoedd, etc (Darpariaethau Amrywiol) 1916 ar gyfer yr amser y mae mewn grym yn y Fwrdeistref.

## 7. GWAHARDD TRYCIAU, PEIRIANNAU A CHERBYDAU

7(1) Ni ddylai unrhyw un yrru, dod â neu achosi dod ag unrhyw dryc, peiriant neu gerbyd ar y Promenâd heblaw am:

(a) feic, beic tair olwyn neu beiriant tebyg arall;
(b) cadair olwyn, cadair wthio neu bram a ddefnyddir i gludo plentyn neu blant neu unigolyn anabl yn unig; neu
(c) gadair olwyn fecanyddol neu electronig a ddefnyddir i gludo unigolyn anabl yn unig.

7(2) Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol:

(a) i unrhyw gerbyd sy'n perthyn i'r heddlu, gwasanaethau tân neu ambiwlans neu os oes angen mynediad at unrhyw ran o'r Promenâd er mwyn achub bywyd mewn argyfwng;
(b) er mwyn cael mynediad uniongyrchol at unrhyw lithrfa a neilltuwyd gan y Cyngor i lansio neu adfer unrhyw gwch neu long, heblaw am unrhyw lithrfa a neilltuwyd yn benodol gan y Cyngor i'w defnyddio gan Fad Achub Llandudno;
(c) unrhyw gerbyd sy'n gorfod cael mynediad uniongyrchol, mewn unrhyw argyfwng o dan ddarpariaethau is-ddeddf 7A isod, at unrhyw lithrfa a neilltuwyd yn benodol gan y Cyngor i'w defnyddio gan Fad Achub Llandudno; neu
(d) unrhyw gerbyd a ganiateir gan y Cyngor i fod ar y Promenâd at ddibenion arddangosfa neu unrhyw ddigwyddiad arall a gynhelir gyda chaniatâd y Cyngor.
(e) unrhyw gerbyd sy'n gysylltiedig â busnes y Cyngor.

7(3) Rhaid i unrhyw gerbyd sy'n dod ar y Promenâd yn unol â 7(1) a 7 (2) uchod wneud hynny ar gyflymder diogel a rhesymol.

7(4) Gall y Cyngor gau unrhyw ran o'r Promenâd i gerbydau mewn amgylchiadau gweithredol.

## 7A. CYFYNGU AR LITHRFA'R BAD ACHUB

Ni ddylai unrhyw un lansio neu adfer unrhyw gwch neu long o unrhyw lithrfa a neilltuwyd yn benodol gan y Cyngor i'w defnyddio gan Fad Achub Llandudno ac a ddangosir gan arwyddion sydd wedi'u gosod mewn safleoedd amlwg ar y Promenâd, heb ganiatâd y Cyngor o flaen llaw neu oni bai fod hynny'n ofynnol mewn argyfwng at ddibenion achub bywyd neu eiddo.

## 8. TYNNU RHWYSTRAU AC ATI.

Ni ddylai unrhyw un ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth heb esgus rhesymol:-

i. dynnu neu ddadleoli unrhyw rwystr, rheilen, postyn neu sedd neu unrhyw ran o unrhyw adeilad neu addurniad;
ii. tynnu, dadleoli neu ymyrryd fel arall ag unrhyw offer achub bywyd a osodwyd gan y Cyngor.

## 9. GEMAU AC ATI

Ni ddylai unrhyw un gymryd rhan mewn unrhyw gêm, camp neu ddiddordeb mewn modd sy'n debygol o ymyrryd ar neu achosi annifyrrwch neu berygl i unrhyw ddefnyddiwr arall ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth.

## 10. SETIAU DI-WIFR, CHWARAEWYR SAIN AC ATI.

Ni ddylai unrhyw un ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth drwy weithredu neu achosi neu oddef gweithrediad, unrhyw set ddi-wifr, chwaraewr sain analog, chwaraewr sain digidol, chwaraewr cyfryngau personol, corn siarad, seinchwyddwr neu offer tebyg, wneud, achosi neu oddef gwneud unrhyw sŵn sydd mor uchel neu mor barhaus neu ailadroddus nes ei fod yn rhoi achos rhesymol i beri annifyrrwch i bobl eraill ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth.

## 11. MARCHOGAETH A GYRRU

Ni ddylai unrhyw un ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth ddofi unrhyw geffyl neu anifail arall neu farchogaeth neu yrru unrhyw geffyl neu anifail arall mewn ras neu mewn modd sy'n achosi perygl neu annifyrrwch i unrhyw un sy'n defnyddio'r Promenâd, Traeth neu Flaendraeth.

## 12. RHWYSTRO'N FWRIADOL CWNSTABLAU, SWYDDOGION Y CYNGOR AC ATI RHAG CYFLAWNI EU DYLETSWYDDAU

Ni ddylai unrhyw un ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth:-

(a) rwystro'n fwriadol unrhyw swyddog o'r Cyngor rhag cyflawni ei ddyletswyddau'n briodol;
(b) rhwystro'n fwriadol unrhyw un rhag cyflawni unrhyw weithred sy'n ofynnol i gyflawni unrhyw gontract gyda'r Cyngor yn briodol;
(c) rhwystro'n fwriadol unrhyw un arall rhag defnyddio'r Promenâd, Traeth neu Flaendraeth yn briodol neu ymddwyn mewn modd sy'n rhoi sail i annifyrrwch i bobl eraill ar y Promenâd, Traeth neu Flaendraeth.

## 13. COSBAU

Bydd pob unigolyn sy'n troseddu yn erbyn yr is-ddeddfau uchod yn atebol ar ôl collfarn ddiannod i dalu dirwy heb fod yn uwch na LEFEL 2 ar y Raddfa Safonol.

## 14. EITHRIO'R GORON A HAWLIAU ERAILL

Ni fydd unrhyw beth a gynhwysir yn unrhyw un o'r is-ddeddfau uchod yn cael eu hystyried i fod neu'n gweithredu fel rhodd gan neu ar ran y Goron fel perchennog y Blaendraeth islaw'r marc penllanw o unrhyw ystâd neu fuddiant mewn neu hawl dros y Blaendraeth hwnnw, neu unrhyw ran ohono, ac ni fydd unrhyw beth a gynhwysir yn neu a wnaed o dan unrhyw un o ddarpariaethau'r is-ddeddfau uchod mewn unrhyw ffordd yn niweidio neu'n cael effaith niweidiol ar hawliau a buddiannau'r Goron yn y Blaendraeth hwnnw, neu'n atal wedi hynny unrhyw hawliau cyhoeddus rhag cael eu hymarfer neu'n niweidio neu'n cael effaith niweidiol ar unrhyw hawl, pŵer neu fraint y gellir eu harfer yn gyfreithiol gan unrhyw berson dros ac o ran y Blaendraeth .

Daw'r is-ddeddfau crybwylliedig yn weithredol ar yr **15fed Awst 2017**.

Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY** yma yng ngŵydd:-

Swyddog Selio Awdurdodedig

177123